# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

## RHAN 1

CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg

(1) Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn drosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.

(2) Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer parhad rôl yr Ombwdsmon.

(3) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth—

- (a) i'r Ombwdsmon ymchwilio i awdurdodau rhestredig;
- (b) o ran pwy sy'n cael gwneud cwynion i'r Ombwdsmon ac atgyfeirio cwynion ato;
- (c) o ran y materion y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt;
- (d) o ran y gweithdrefnau sy'n gymwys i ymchwiliadau'r Ombwdsmon;
- (e) o ran pwerau'r Ombwdsmon i ymdrin â rhwystr a dirmyg;
- (f) i'r Ombwdsmon baratoi adroddiadau ar ymchwiliadau;
- (g) i'r Ombwdsmon ddyroddi canllawiau i awdurdodau rhestredig ynghylch arferion gweinyddu da;
- (h) i awdurdodau rhestredig ddigolledu personau a dramgwyddwyd.

(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth—

- (a) i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau ymdrin â chwynion awdurdodau rhestredig, a'r weithdrefn Cynulliad sy'n gymwys i'r datganiad o egwyddorion;
- (b) i'r Ombwdsmon gyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, RHAN 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(c) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig gydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n gymwys i'r awdurdod rhestredig;

(d) i'r Ombwdsmon ddatgan nad yw gweithdrefn ymdrin â chwynion awdurdod rhestredig yn cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion;

(e) i'r Ombwdsmon hybu arferion gorau o ran y ffordd yr ymdrinnir â chwynion.

(5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth—

(a) i'r Ombwdsmon ymchwilio i ddarparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr gofal lliniarol;

(b) o ran pwy sy'n cael gwneud cwynion i'r Ombwdsmon a'u hatgyfeirio ato ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol;

(c) o ran y materion gofal cymdeithasol a gofal lliniarol y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt;

(d) o ran y gweithdrefnau sy'n gymwys i ymchwiliadau'r Ombwdsmon i ofal cymdeithasol a gofal lliniarol;

(e) i'r Ombwdsmon baratoi adroddiadau ar ymchwiliadau i ofal cymdeithasol a gofal lliniarol.

(6) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth atodol—

(a) i'r Ombwdsmon weithio gydag ombwdsmyn a chomisiynwyr eraill etc. mewn perthynas ag ymchwiliadau;

(b) o ran datgelu a diogelu gwybodaeth a chyhoeddiadau mewn perthynas ag ymchwiliadau.

(7) Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth amrywiol, gan gynnwys ychwanegu'r Ombwdsmon i Atodlen 6 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 a'i gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad adolygu gweithrediad y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** A. 1 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, RHAN 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)